# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll**

**Plas Crigyll**
**Stryd Salem**
**Caergybi**
**LL65 3RA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 25 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 08 Ionawr 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Plas Crigyll a'u teuluoedd yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae'r staff a'r rheolwyr yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion y bobl ac yn dangos agwedd ofalgar. Mae gwybodaeth fanwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei chofnodi yn y cynlluniau personol unigol ac yn yr asesiadau risg a chânt eu diweddaru'n briodol. Mae'r gwasanaeth yn helpu'r bobl i wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r darparwr yn cwblhau atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol a gwasanaethau arbenigol i'r bobl sy'n byw yn y cartref yn ôl yr angen.

Mae'r staff yn hapus yn gweithio yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol. Caiff y staff hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn wybodus yn eu rôl ofalu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i fonitro a gwella'r gwasanaeth ymhellach.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn gartrefol ac yn hamddenol. Caiff yr ystafelloedd eu personoli gan ddefnyddio eitemau cofiadwy ac eiddo personol y bobl. Mae digon o le yn yr ardaloedd cymunedol, maent yn olau a chawsant eu haddurno'n ddiweddar, gan roi lle a phreifatrwydd i deuluoedd a ffrindiau dreulio amser gyda'r bobl sy'n bwysig iddynt.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan staff sy'n ymwybodol o'u hoff bethau, eu cas bethau a'u dewisiadau. Roedd yr adborth gan y bobl yng nghartref Plas Crigyll yn nodi’n gyson pa mor hapus oeddent a pha mor ddiogel y maent yn teimlo. Mae'r bobl yn cael cymorth i wneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn dewis ble yr hoffent dreulio eu hamser. Mae aelodau o deulu a ffrindiau'r bobl yn ymweld â'r bobl yn rheolaidd ac maent yn cael eu hannog i dreulio amser yn y gymuned â'u hymwelwyr. Rhoddir dewis i'r bobl o'r hyn yr hoffent ei fwyta a gwelsom dystiolaeth fod y staff yn cynnig opsiynau amgen os bydd y bobl yn nodi nad ydynt yn hoff o'r eitemau ar y fwydlen.

Gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn y cartref, gan wneud pethau i'w cadw'n iach. Mae'r rheolwyr yn cynllunio gweithgareddau bob wythnos ac yn cadw cofnodion o'r gweithgareddau hynny. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o'r staff yn helpu'r bobl i wneud tasgau golchi dillad, peintio cerrig mân, a chwarae gemau yn yr heulfan. Mae unigolyn yn dod i'r cartref i drin gwallt y bobl a chânt gyfleoedd i dreulio amser ag anifeiliaid anwes therapi fel cwningod a chŵn. Roedd y papur newydd lleol yn sôn am y cartref yn rheolaidd, a hynny mewn ffordd gadarnhaol, gan roi llais i'r bobl sy'n byw yng nghartref Plas Crigyll yn y gymuned.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae’r darparwr yn atgyfeirio'r bobl at wasanaethau iechyd mewn modd amserol ac maent yn cael y gofal a’r cymorth cywir. Caiff pob ymyriad gan weithiwr iechyd proffesiynol allanol ei ddogfennu yng nghynlluniau personol y bobl er mwyn gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau. Mae'r staff yn teimlo'n hyderus y gallant fynd at y rheolwyr os bydd ganddynt bryder diogelu, ac maent yn ymwybodol o'r Polisi Diogelu. Mae'r rheolwyr yn ymateb yn brydlon i faterion sy'n ymwneud â diogelwch a llesiant y bobl ac yn hysbysu'r holl asiantaethau perthnasol. Mae pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac unrhyw hyfforddiant craidd arall. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn parhau'n ymwybodol ohonynt. Cwblheir gwiriadau cyn cyflogi cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y cartref er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i weithio gyda phobl agored i niwed.

Mae amgylchedd y cartref yn helpu pobl sy'n byw gyda dementia i gyflawni safon dda o lesiant. Caiff pob ystafell ei phersonoli i weddu i anghenion unigol y bobl ac mae pob ystafell yn lân ac yn ddigon mawr. Mae dewis o ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl dreulio eu diwrnodau, yn ogystal â chaffi wedi'i adnewyddu sy'n rhan o'r cartref ac sy'n galluogi'r bobl a'u teuluoedd i dreulio amser gyda'i gilydd mewn awyrgylch hamddenol.

## Gofal a Chymorth

Caiff anghenion y bobl eu hasesu'n llawn cyn iddynt symud i'r cartref. Mae'r rheolwr yn casglu gwybodaeth gan y bobl, eu teuluoedd neu gynrychiolwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol a Gweithwyr Cymdeithasol er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o anghenion y bobl a sut i'w cefnogi'n ddiogel. Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y cartref a disgrifiwyd staff cartref Plas Crigyll fel aelodau o'u teulu. Dywedodd un person wrthym *"The welcome from everyone here has been fantastic. I call them (staff) my guardian angels."* Dywedodd eraill *"Tydi staff methu bod dim gwell. Mae'r bwyd yn lyfli. Dwi wrth fy modd yma, braf iawn yma."* Gwelsom aelodau o'r staff yn mynd at y bobl mewn ffordd ddigynnwrf ac urddasol ac mewn modd amserol. Yn ôl pob golwg, mae'r bobl yn gallu ymlacio ac yn fodlon eu byd yn y cartref ac mae rhyngweithio rheolaidd rhyngddynt â'r staff gofal caredig. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn diddanu'r bobl drwy ganu i gyfeiliant y gerddoriaeth Gymraeg a oedd i'w chlywed, ac roedd yn ymddangos bod y staff a'r bobl yn mwynhau'r gweithgaredd.

Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd gan y rheolwyr er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod sut i ofalu am y bobl yn gywir. Caiff cynlluniau personol y bobl eu hysgrifennu yn eu dewis iaith. Mae asesiadau risg priodol ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y staff. Mae systemau ar waith i gofnodi a diweddaru'r cynllun personol i gynnwys unrhyw gyswllt gan asiantaethau allanol megis nyrsys ardal, ffisiotherapyddion a deietegyddion. Yn ôl y ffeiliau gofal a welwyd, roedd y bobl yn cael eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen ac yn cael adolygiadau rheolaidd gan feddygon teulu a seiciatryddion.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r polisi chwythu'r chwiban a'r polisi diogelu. Mae gwybodaeth gyfredol am geisiadau i'r awdurdod lleol o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gyfer y bobl nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau am eu gofal i'w gweld yn ffeiliau'r bobl. Caiff meddyginiaeth ei storio a'i harchebu'n briodol. Gwelsom wiriadau ac archwiliadau cywir o feddyginiaethau yn ystod hapwiriadau a chaiff troliau meddyginiaeth a siartiau wedi'u hargraffu eu defnyddio er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhoi'n ddiogel.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau ar waith i hyrwyddo hylendid a phrosesau rheoli heintiau. Mae'r staff domestig yn gwneud yn siŵr bod y cartref yn lân ac yn hylan. Mae cyflenwadau golchi dillad, Cyfarpar Diogelu Personol a digon o gyflenwadau glanhau ar gael ac yn cael eu defnyddio'n briodol gan y staff.

## Yr Amgylchedd

Mae’r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol ac mae ystafelloedd y bobl wedi’u haddurno ag eitemau a phethau cofiadwy o’u cartrefi. Mae'r cartref yn fawr ac mae digon o le yn yr ardaloedd cymunedol i deuluoedd ymweld â'u perthnasau er mwyn treulio amser yn eu cwmni. Mae'r ystafelloedd gwely, yr ystafelloedd ymolchi a'r ardaloedd cymunedol oll wedi'u haddurno i safon dda. Mae'r cartref yn cyflogi gweithiwr cynnal a chadw ac mae wrth law i wneud unrhyw atgyweiriadau sydd eu hangen yn y cartref. Nid oes annibendod yn y cynteddau, gan leihau'r risg o gwympo, mae pob cwpwrdd dillad ac eitem fawr o ddodrefn wedi'i hatodi at y wal ac mae cyfyngwyr wedi'u gosod ar bob ffenestr er mwyn sicrhau diogelwch.

Mae dwy lolfa, dwy ystafell fwyta a chaffi a adnewyddwyd yn ddiweddar sy'n cynnwys eitemau y gall perthnasau helpu eu hunain iddynt yn ystod ymweliadau. Maent hefyd yn cynnwys ardaloedd eistedd cyfforddus er mwyn iddynt allu cymdeithasu. Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu ardal ddecin yn yr ardd y bydd modd ei chyrraedd drwy'r caffi, gan gynnig ardal eistedd awyr agored i'r bobl, eu teulu a'u ffrindiau pan fydd y tywydd yn gynnes.

Mae cyfarpar priodol ar gael i'r bobl, sy'n cael ei wasanaethu a'i cynnal a'i gadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod gwiriadau iechyd a diogelwch cyfredol ar waith. Cynhelir profion larwm tân a gwiriadau diogelwch tân eraill yn wythnosol. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi sgôr hylendid bwyd Lefel 5 i'r cartref, sef y sgôr uchaf posibl. Mae'r asesiadau risg iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer y bobl sy'n byw yn y cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yn ystod yr arolygiad, roedd y staff yn canmol y rheolwr yn fawr, gan nodi ei fod yn hawdd mynd ato, a bod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ganddo. Mae pob aelod o'r staff yn mynychu hyfforddiant craidd yn ogystal â hyfforddiant e-ddysgu ar bynciau penodol mewn perthynas â chyflyrau iechyd y bobl. Mae'r cyrsiau a fynychir gan y staff yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Gwelsom gofnodion yn dangos bod y staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, a chofnodion yn ymwneud â gwiriadau fetio a gwiriadau diogelwch ar gyfer aelodau newydd o staff, a oedd yn cael eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio. Mae'r cofnodion yn dangos bod niferoedd digonol o'r staff yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yno. Mae rhai aelodau o'r staff wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers degawdau a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn dal i fwynhau gweithio yng nghartref Plas Crigyll, gan nodi*“Dwi wrth fy modd yn gweithio yma hefo’r staff a’r trigolion”*. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi gweithwyr asiantaeth er mwyn cynnal nifer digonol o staff ac mae'n wynebu heriau gan fod aelodau o'r staff yn ymddeol. Cawsom sicrwydd gan y rheolwr nad oes unrhyw effaith ar effeithiolrwydd y gwasanaeth a bod trefniadau ar waith gyda'r asiantaeth gofal i ddarparu parhad gofal.

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol drefniadau ar waith ar gyfer goruchwylio a monitro'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r cofnodion yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i siarad â'r bobl a'r staff er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth. Gwelsom gofnodion o ymweliadau ffurfiol gan yr Unigolyn Cyfrifol wedi'u dogfennu fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Mae'r ddogfen Datganiad o Ddiben yn rhoi gwybodaeth gyfredol glir i'r bobl am y gwasanaeth, y strwythur staffio, a'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae sawl aelod o'r staff yn rhugl yn y Gymraeg ac yn meddu ar y sgiliau priodol i ddarparu gofal a chymorth yn newis iaith y bobl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2023